

Catchphrase Ysbyty Brynaber - Week 99

Key Language

mynd i
bydd
hiraethu

New Words

ar ei ben	exactly, literally on its head
carden	a card
pwnsio	to punch
os gweli di'n dda	please (to those you address as 'ti')
cyfle	a chance
hel esgusodion	to make excuses; literally, to collect excuses
melan	depression
wrth fodd	delighted
cofio at	to send one's regards
diniwed	innocent
newydd droi	just turned
sbel	a while
dwn i'm (nid wn i ddim)	I don't know
hiraethu	to long for, to miss
eithaf tipyn	quite a bit
dadwisgo	to get undressed
llwyddo	to succeed
rheoli	to control
celwydd noeth	a bare faced lie
ffaelu	to be unable
dramor	abroad
fel pin mewn papur	spick and span, literally, like a pin in paper
gan amlaf	usually
urddasol	dignified
diodydd meddal	soft drinks
o hyd	still
dod i ben	to cope, literally, to come to an end

Jac and Brian are still at loggerheads. Jac touches a raw nerve in an angry exchange with his former business partner.

Brian - Beth ydy'r joc?

Jac - Ti, mêt.

Brian - Na. Chdi ydy'r joc. Yn dy gadair olwyn. Heb dy goes. Yn dal i feddwl dy fod chdi'n rhywun. Ac wyt ti'n gwybod beth, Jac? Rwy'ti'n neb.

Jac - Ond pwy sy'n cysgu bob nos efo Agnes, mêt?

Brian - Cer i grafu!

Does Brian still have a secret hankering after his ex-wife Agnes, I wonder. Things are certainly not easy for him at home, as Wendy finds it increasingly more difficult to cope:

Wendy - Dw i'n ffaelu...I can't cope, Brian...

Brian - Cawn ni help i chdi...

Wendy - I just can't cope any more...

Brian - Cawn ni ryw ferch...Au pair neu rywbeth...

Wendy - That's why I can't have Rhodri here...Dw i'n ffaelu...Wyt ti'n deall?

Main Grammatical Points

In English you can say 'I'm going to do something' when you want to refer to a future action - you don't always have to say I will do something. And you can do this in Welsh too.

Wendy flatly refuses to have Rhodri living with them full time. She says:

No way dw i'n mynd i dderbyn fod Rhodri yn byw gyda ni trwy'r amser.

'No way am I going to accept that Rhodri lives with us all the time'.

Now listen to other examples of *mynd i* referring to the future:

Dw i'n mynd i wrando ar Ysbyty Brynaber bob nos.

'I'm going to listen to Ysbyty Brynaber every night'.

Maen nhw'n mynd i brynu car newydd yfory.

'They're going to buy a new car tomorrow'.

Of course there is a future tense of the verb BOD - *bydd*. But *bydd* can also be used to indicate repeated actions as well as the future, as we learnt quite recently. Let me remind you of this usage. As Jenny reminisces about her time in Nairobi, she tells Michelle that Arwyn's local is the bar at the hotel where she was staying and that's where he usually drinks.

Michelle - Ydy e wedi ffeindio bar?

Jenny - Yfed yn 'bar' yr hotel lle roeddwn i'n aros bydd o gan amlaf...

Bydd here doesn't mean that Arwyn will drink in that particular bar but that he drinks there regularly - it's a repeated action. A clue is given to the meaning of 'bydd' here by the phrase *gan amlaf* - 'usually'. But be careful, a clue like this may not always be used.

Here are some other examples:

Bydd Arwyn yn mynd i'r ysbyty yfory

Arwyn will be going to the hospital tomorrow - this obviously refers to the future.

but

Bydd Arwyn yn mynd i'r ysbyty bob dydd

Arwyn goes to the hospital every day - this is a regular occurrence

When Jenny admits to Agnes that she's feeling a bit low, Agnes asks her:

Wyt ti'n *hiraethu* am Kenya?

hiraethu is the verb from the noun *hiraeth* which is an almost impossible word to translate into any other language. It can signify sadness or grief after the loss of a person; or it can also indicate homesickness or the nostalgia for the old country, felt by so many Welsh people who have moved away from Wales. *Hiraethu* here means 'to miss' or 'to long for'. What Agnes asks Jenny is whether she longs to be back in Kenya. Can you guess why?

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 295

Wendy seems to be hyper-sensitive with everyone these days. Meanwhile a harrassed Brian finds consolation in the Yacht Club...

Geirfa

ar ei ben	exactly; literally, on its head
carden	a card
pwnsio	to punch
os gweli di'n dda	please (to those you address as 'ti')
cyfle	a chance
hel esgusodion	to make excuses, literally to collect excuses
melan	depression
wrth fodd	delighted
cofio at	to send one's regards
diniwed	innocent
newydd droi	just turned

Golygfa 1

Brian - Agnes...
Agnes - Bore da, Brian...Pwmp pedwar.
Brian - Tri deg wyth punt ar ei ben.
Agnes - Dacw ti fy ngharden i...
Brian - Ar dy ffordd i'r gwaith?
Agnes - Ie. Sut wyt ti'n setlo yn y tŷ newydd?
Brian - lawn...
Agnes - Ydy hi'n braf byw mas yn y wlad?
Brian - Ydy...Ydy, mae hi...Wnei di bwnshio dy rif i mewn, os gweli di'n dda?
Agnes - Pryd wyt ti am i Rhodri ddod draw atat ti i fyw?
Brian - Ddim eto...
Agnes - Ond dywedaist ti -
Brian - Do, dw i'n gwybod...
Agnes - Dywedaist ti unwaith byddet ti wedi symud i mewn i'r tŷ newydd y gallai fe ddod i fyw atat ti.
Brian - Ond dydy'r tŷ ddim cweit yn barod eto.
Agnes - Beth wyt ti'n ei feddwl?
Brian - Mae gen i dipyn o waith paentio ac ati i'w wneud.
Agnes - Pryd fydd y tŷ yn barod ynte?
Brian - Rho gyfle i mi...
Agnes - Beth ydw i fod i ddweud wrth Rhodri?
Brian - Dweud y gwir. Dweud bod y tŷ ddim yn barod.
Agnes - Ond rho ryw fath o ddyddiad i fi.
Brian - Ar hyn o bryd, dydw i ddim yn gwybod, Agnes. lawn?
Agnes - Dwyt ti ddim yn hel esgusodion wyt ti?
Brian - Nac ydw, siwr...
Agnes - Y peth diwethaf rydyn ni eisiau ei wneud ydy siomi Rhodri.

Golygfa 2

Jenny - Hello, Wendy...
Wendy - Wyt ti'n edrych yn frown...Been under a sun lamp or what?
Jenny - Haul Kenya.
Wendy - Where's that then? That place off the High Street?
Jenny - Na. Yr haul yn Kenya. Kenya, Affrica.
Wendy - Wyt ti wedi bod yn Affrica?
Jenny - Ers dechrau Rhagfyr...
Wendy - Blimey! Neis i rai...

Jenny - Roedd o'n brofiad ffantastig...Yn Nairobi, prifddinas Kenya, bues i gan fwyaf...Mae Arwyn yn gweithio mewn ysbyty yno...

Wendy - Sut mae e?

Jenny - Wrth ei fodd...A dweud y gwir roedd o'n cofio atat ti...

Wendy - O, reit...

Jenny - A mi rois i dipyn o dy hanes di iddo fo...

Wendy - Beth wyt ti'n ei feddwl?

Jenny - Dim...Dim ond dweud dy fod ti wedi cael babi arall...

Wendy - Sa hynny'n big deal ydy e?

Jenny - Na...

Wendy - Why d'you want to go blabbing about it all over Kenya then?

Jenny - Wnes i ddim...Dim ond dweud dy hanes di wnes i...Dim mwy na hynny...Edrycha - roedd o'n ddigon diniwed...

Wendy - Jabbering about me to Arwyn... Really...!

Jenny - Roedd ganddo fo ddiddordeb mewn gwybod dy...

Wendy - Dywedaist ti beth oedd enw y babi?

Jenny - Do, wrth gwrs... Dydw i ddim yn deall pam wyt ti mor flin?

Wendy - I just wish people would mind their own business sometimes...And is that too much to ask?

Golygfa 3

Michelle - Un arall?

Brian - Yyyyy...le, go on. Faint o'r gloch ydy hi?

Michelle - Newydd droi hanner awr wedi un.

Brian - lawn ynte...Tyrd â hanner arall i mi...

Michelle - Rwy'ti'n depressed. I can tell...

Brian - Ydw, dw i'n teimlo'n reit isel...

Michelle - Dyna beth yw depressed?

Brian - Ie. Isel. Low. Neu mae'r felan arnaf i. Dyna oedd mam wastad yn ei ddweud...

Michelle - Mae'r felan arnaf i. That's a bit of a mouthful!

Brian - Wel, dw i'n teimlo i lawr yn y 'dumps' ynte..

Michelle - 'Dumps' isn't Welsh. 'Dumps' is English...

Brian - Ie.

Michelle - Pam wyt ti'n teimlo'n isel, ynte?

Brian - Dw i'n isel achos...wel...dw i yn y 'dumps' am fod pob un dim ar fy mhen i...

Michelle - Like what?

Brian - Bywyd.

Michelle - Sut?

Brian - 'Hassles'. Agnes. Rhodri...Wendy.

Michelle - Brêc. Dyna beth wyt ti eisiau...

Brian - Go brin caf i hynny...A phrun bynnag, dydw i ddim yn gallu...Mae gen i ormod o waith...

Michelle - Wyt ti wedi cael rhywun yn lle Chris?

Brian - Ddim eto. A sôn am Chris - dw i wedi addo mynd i fyny i'r uned seiciatrig i'w weld o heno...Wyt ti am i mi dy gofio chdi ato fo?

Michelle - Na.

Brian - Dw i'n teimlo drosto fo. Bechod.

Michelle - I hope he never comes out.

Brian - Sâl ydy Chris, Michelle. Ddim drwg.

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 296

Agnes's hunch last week was spot-on as Jenny discloses an interesting piece of information about her visit to Nairobi! Chris Roberts sends a message to Michelle. And Wendy and Brian are still bickering.

Geirfa

sbel	a while
dwn i'm (nid wn i ddim)	I don't know
hiraethu	to long for, to miss
eithaf tipyn	quite a bit
dadwisgo	to get undressed
llwyddo	to succeed
rheoli	to control

Golygfa 1

Brian - Cawod dda?
Wendy - Bril. I feel totally refreshed...
Brian - Wyt ti mewn 'mood' caru ynte?
Wendy - Dywedais i ddim hynny...
Brian - O come on Wend - mae hi wedi bod dros flwyddyn.
Wendy - Sut wyt ti'n cofio?
Brian - Sut fedraf i ddim cofio rhywbeth fel yna! Daeth Agnes i fy ngweld i bore ddoe hefyd...
Wendy - Ble? Yn y garej?
Brian - Ie...
Wendy - 'Bytu Rhodri?
Brian - Ie
Wendy - A beth ddywedaist ti wrthi?
Brian - Dweud bod gennyn ni lot o waith i'w wneud yma o hyd...
Wendy - 'But'?
Brian - Bod hi ddim yn bosibl i Rhodri ddod yma am sbel.
Wendy - Am sbel?
Brian - Ie...
Wendy - Am sbel? A beth mae 'am sbel' yn ei feddwl?
Brian - Dw i'n methu gwrthod am byth.
Wendy - Yes, you can. Achos no way dw i'n mynd i dderbyn bod Rhodri yn byw gyda ni trwy'r amser. And that's it, Brian.
Brian - Ond rydyn ni'n sôn am Rhodri! Fy mab i!
Wendy - Gyda pwy wyt ti eisiau byw, Brian? Rhodri neu fi?

Golygfa 2

Jenny - Agnes...Bore da...
Agnes - Sut wyt ti erbyn hyn?
Jenny - Yn ôl i realiti.
Agnes - Fel ni i gyd!
Jenny - A dwn i'm... Dw i'n teimlo'n reit isel a dweud a gwir.
Agnes - Wyt ti'n hiraethu am Kenya?
Jenny - Ydw. Lot. Lot fawr iawn...
Agnes - Welaist ti lot o Arwyn tra oeddet ti mas yna?
Jenny - Do. Eithaf tipyn...
Agnes - Ydy e mewn perthynas?
Jenny - Nac ydy...
Agnes - A chest ti ddim rhyw garwriaeth fach mas yna chwaith?
Jenny - Do fel mae'n digwydd...
Agnes - Roeddwn i wedi amau hynny...
Jenny - Ond dydw i ddim yn siwr a fuaswn i'n mynd mor bell â galw'r peth yn garwriaeth chwaith...

Agnes - Mwy o ffling, ie?
Jenny - Mwy o one night stand.
Agnes - Oes gyda fi hawl gofyn gyda pwy?
Jenny - Oes.
Jenny - Arwyn.
Agnes - Arwyn?...Beth? A dim ond un noson?
Jenny - Ie. Dim ond un noson...
Agnes - Yffach! Dyna beth yw 'surprise'! Pam?
Jenny - Dyna'r peth...Wrth edrych yn ôl: dydw i ddim cweit yn deall pam fy hun...Roedden ni'n eistedd yn 'bar' fy hotel i...Siarad am yr hen ddyddiau...Roedd hi'n hwyr y nos...A'r peth nesaf roedden ni'n cusanu a wedyn...wel...aethon ni i fyny i fy ystafell i, dadwisgo a mynd i'r gwely efo'n gilydd.

Golygfa 3

Michelle - Brian - prynhawn da...
Brian - Haia...
Michelle - Same as usual?
Brian - Plis...sut mae pethau?
Brian - Es i i weld Chris ddoe yn yr uned seiciatrig...
Michelle - Ie...gwneist ti ddweud dy fod ti'n mynd...
Brian - Wyt ti ddim am ofyn i mi sut oedd o?
Michelle - Sut oedd e?
Brian - Lot gwell na mae o wedi bod...
Michelle - Still crazy though?
Brian - Mae o'n cymryd meddyginiaeth...Maen nhw'n llwyddo i reoli ei sgitsoffrenia fo...
Michelle - Good...
Brian - Ydy, mae o.
Michelle - Dacw ti. Your pint. Dwy bunt tri deg, plis.
Brian - Gwnaeth o holi amdanach chdi...
Michelle - Dofe?
Brian - Do...
Michelle - A beth ddywedaist ti?
Brian - Dweud sut wyt ti...Dweud dy fod chdi'n brysur...
Michelle - Why was he asking? What was he after?
Brian - Dim byd, dydw i ddim yn meddwl...
Michelle - Na. He's after something. I know it...
Brian - Mi wnaeth o ofyn un peth i mi...Un ffafr...
Michelle - Mae e moyn i fi fynd i'w weld e?
Brian - Ydy. Ydy, mae o. Wyt ti am fynd?

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 297

Jenny reminisces about Africa with Michelle in the Yacht Club and Agnes gives Brian an ultimatum about Rhodri.

Geirfa

celwydd noeth	a bare faced lie
ffaelu	to be unable
dramor	abroad
fel pin mewn papur	spick and span; literally, like a pin in paper
gan amlaf	usually
urddasol	dignified
diodydd meddal	soft drinks
o hyd	still
dod i ben	to cope; literally, to come to an end

Golygfa 1

Brian - Agnes? Sut mae?
Agnes - Ddim yn dda iawn, Brian.
Brian - Pam?
Agnes - Achos ti...
Brian - Fi?
Agnes - Ie...
Brian - Beth ydw i wedi ei wneud eto?
Agnes - Dweud celwydd noeth wrthyf i!
Brian - E?
Agnes - Paid ag actio'n dwp! Wyt ti'n gwybod yn iawn am beth dw i'n sôn!
Brian - Nac ydw - dydw i ddim...
Agnes - Dywedaist ti wrthyf i dy fod ti'n ffaelau cael Rhodri i aros achos bod llwyth o waith paentio gyda ti yn y tŷ newydd...
Brian - Oes. Mae hynny'n wir...
Agnes - O? Ydy e nawr?
Brian - Ydy...
Agnes - Wel, pan ges i baentiwr lleol i ffonio Wendy gynnu...dywedodd hi - dywedodd Wendy ei hunan - fod dim bwriad gyda chi i baentio dim gan fod y tŷ fel pin mewn papur!
Agnes - Wyt ti'n ffaelau ateb wyt ti? Achos dyna beth yw'r gwir ynte?
Brian - Dydy pethau ddim mor syml â hynny...
Agnes - O? Nac ydyn nhw? Dywedwn i fod pethau yn eithaf du a gwyn! Dwyt ti ddim eisiau dy fab dy hunan wyt ti?

Golygfa 2

Michelle - Doctor Saunders ynte?
Jenny - Helo...Michelle ynte?
Michelle - Ie...O'r Yacht Club...Wyt ti'n edrych yn frown...
Jenny - Dw i wedi bod dramor...
Michelle - Sbaen, ie?
Jenny - Na. Dipyn pellach na hynny...
Michelle - Cairo...
Jenny - Nage. Nairobi.
Michelle - Nairobi? Yn y fan honno mae Arwyn Saunders.
Jenny - Ie. Dw i'n gwybod. Mi welais i o tra oeddwn i yno...
Michelle - Arwyn's a real gent...A sut oedd e?
Jenny - Mwynhau...Gweithio'n galed...
Michelle - Ydy e wedi ffeindio 'bar'?
Jenny - Yfed yn 'bar' yr hotel lle oeddwn i'n aros bydd o gan amlaf...
Michelle - Ydy e wedi ffeindio rhywun mas yna?
Jenny - Na...Ddim eto beth bynnag...

Michelle - Sure he will...Mae e mor...beth yw'r gair am dignified?
Jenny - Urddasol?
Michelle - Ie. That's it. Dyna'r description gorau o Arwyn...Mae e mor urddasol...Pan dydy e ddim yn feddw, wrth gwrs...
Jenny - Dim ond diodydd meddal mae o'n yfed y dyddiau yma.
Michelle - What? Mae e wedi mynd yn tee-total?
Jenny - Ydy...Mae o wedi mynd yn hollol tee-total.
Michelle - Maen nhw'n dweud bod Affrica yn cael effaith ryfedd ar bobl...
Jenny - Mae hynny'n wir...Mi gafodd Affrica effaith ryfedd iawn arnaf i, mae'n rhaid i mi ddweud...

Golygfa 3

Agnes - ...dyna ddangos yn hollol glir beth wyt ti'n ei feddwl o les dy fab dy hunan ynte?
Brian - Agnes - pwylla rwan...plis....
Agnes - Sut dw i'n mynd i egluro wrth Rhodri fod ei dad e - sydd wedi addo rhoi to uwch ei ben e - ddim eisiau fe yn ei dŷ o gwbl?
Brian - Mae o'n cael dod am hanner yr wythnos o hyd...
Agnes - Ond mae e moyn dod i fyw gyda ti trwy'r amser! A dyna beth rydyn ni wedi ei gytuno! Dyna beth wyt ti wedi ei addo iddo fe!
Brian - Hanner addo -
Agnes - Na - addo, Brian! Clywais i ti!
Brian - Agnes - plis - paid â gwylltio!
Agnes - Wyt ti'n ffaelud mynd yn ôl ar dy air nawr!
Brian - Fel dw i wedi trio egluro, dydy pethau ddim yn syml -
Agnes - Mae digonedd o le gyda ti!
Brian - Oes - ond Victoria a Frank -
Agnes - Pa wahaniaeth mae hynny'n ei wneud?
Brian - A mae Wendy...
Agnes - Hi yw'r drwg?
Brian - Dydy hi ddim yn teimlo gall hi ddod i ben.
Agnes - Dyna'r esgus, ie?
Brian - Dim esgus ydy o.
Agnes - Meddylia di yn hir ac yn galed 'bytu dy benderfyniad, Brian. Achos ti yw'r un sy'n mynd i orfod egluro hyn i gyd wrth Rhodri. Nid fi.
Brian - Helo? Garej...
Wendy - Brian? What took you so long? Ble roeddet ti?
Brian - Yn ei chanol hi fel arfer.

Synopsis

Jenny's disclosed to Agnes that, while she was in Nairobi, she had a fling - but nothing could have prepared Agnes for who the fling was with.

Brian is in an impossible position trying to keep both Agnes and Wendy happy. Agnes has had enough of the situation and has seen through Brian's excuses for not having Rhodri to live with him full time. She blames Wendy of course!

Test yourself

- How would you translate 'usually'?
 - dan amlaf
 - gan amlaf**
 - yn amlaf
- If you are going to take delivery of a new car next week, what do you say?
 - Mae gen i gar newydd yr wythnos nesaf
 - Dwi'n cael car newydd yr wythnos nesaf
 - Dwi'n ceisio car newydd yr wythnos nesaf
- How do you send your regards to someone?
 - Anfon fy hoffder ati hi.
 - Cofia fi ati hi.**
 - Rho fy ngolwg arni hi.
- How would you accuse someone of making excuses?
 - Ti'n hel esgusodion**
 - Ti'n casglu esgusodion
 - Ti'n anfon esgusodion
- How would you translate the phrase 'spick and span'?
 - fel nodwydd mewn nyth
 - fel pin mewn papur**
 - fel gwaell mewn gwedd
- Is a bare-face lie
 - celwydd llwm
 - celwydd noeth**
 - celwydd moel